




WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013  
Cyfeirnod y ddogfen: 191A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

<b>Crynodeb ac argymhellion</b>	4
<b>Adroddiad manwl</b>	
Cyflwyniad	6
Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth reoli a sicrhau gwelliant, ac mae ganddo'r potensial i wneud cynnydd sylweddol yn y dyfodol	7
Yn ystod 2011-12, darparodd yr Awdurdod weithgareddau amrywiol i gefnogi gwelliant, gan sefydlu nifer o ddulliau mesur sylfaenol defnyddiol ar gyfer agweddau ar ei berfformiad, er na fydd modd cynnal hunanasesiad mwy cynhwysfawr o welliant tan 2012-13	7
Mae gallu'r Awdurdod i asesu ei gynnydd yn amlygu mwy o gryfderau na gwendidau, ond gall yr Awdurdod wneud mwy i werthuso ei drefniadau llywodraethu	11
Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwelliant yn 2012-13 yn parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion gwella a'r dulliau mesur llwyddiant a gytunwyd am y tro cyntaf yn 2011-12, ac er bod gwelliannau i ddulliau mesur llwyddiant yr Awdurdod yn gyfyngedig o ganlyniad, mae'r trefniadau cefnogi barhau i ddatblygu	13
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 Statws yr adroddiad hwn	15
Atodiad 2 Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Eryri a'r Awdurdod	16
Atodiad 3 Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig	17
Atodiad 4 Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	20

# Adroddiad Cryno

- 1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae'r Awdurdod yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.
- 2 Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth reoli a sicrhau gwelliant, ac mae ganddo'r potensial i wneud cynnydd sylweddol yn y dyfodol.
- 3 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi darparu gweithgareddau amrywiol i gefnogi gwelliant yn 2011-12, gan sefydlu nifer o ddulliau mesur sylfaenol defnyddiol ar gyfer agweddau ar ei berfformiad, er na fydd modd cynnal hunanasesiad mwy cynhwysfawr o welliant tan 2012-13.
- 4 Yn ogystal, nodwyd bod gallu'r Awdurdod i asesu ei gynnydd yn amlygu mwy o gryfderau na gwendidau, ond gall yr Awdurdod wneud mwy i werthuso ei drefniadau llywodraethu.
- 5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad bod cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwelliant yn 2012-13 yn parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion gwella a'r dulliau mesur llwyddiant a gytunwyd am y tro cyntaf yn 2011-12, ac er bod gwelliannau i ddulliau mesur llwyddiant yr Awdurdod yn gyfyngedig o ganlyniad, dylai'r trefniadau cefnogi barhau i ddatblygu.

# Argymhellion

- 6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad Manwl

## Cyflwyniad

- 7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau eraill lle bo hynny'n briodol, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad ar gyfer 2011-12.
- 8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.
- 9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
- argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
  - cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
  - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
  - gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.
- 10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk) neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth reoli a sicrhau gwelliant, ac mae ganddo'r potensial i wneud cynnydd sylweddol yn y dyfodol

Yn ystod 2011-12, darparodd yr Awdurdod weithgareddau amrywiol i gefnogi gwelliant, gan sefydlu nifer o ddulliau mesur sylfaenol defnyddiol ar gyfer agweddau ar ei berfformiad, er na fydd modd cynnal hunanasesiad mwy cynhwysfawr o welliant tan 2012-13

- 11 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried perfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael i ddangos a yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni.
- 12 Yn 2011-12, penderfynodd yr Awdurdod roi pwyslais arbennig ar ei drefniadau rheoli perfformiad a'u heffeithiolrwydd. Casglwyd rhywfaint o'r wybodaeth am y tro cyntaf erioed yn ystod 2011-12, felly nid oedd modd cymharu perfformiad â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau yn llinell sylfaen ddefnyddiol i gymharu cynnydd yn y dyfodol. Dyma ganlyniadau'r arolygon a gynhaliwyd gan yr Awdurdod:

- roedd dros 88 y cant o aelodau'r Awdurdod yn credu bod yr adroddiadau a gawsant ar gynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella yn amserol ac yn effeithiol;
- roedd bron 90 y cant o'r staff a'r aelodau yn deall bod yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod;
- cytunodd dros 73 y cant o'r staff eu bod yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau.

- 13 Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol, ond mae'r Awdurdod yn derbyn bod rhagor o waith i'w wneud. Un canlyniad a nodwyd gan yr Awdurdod oedd yn llai cadarnhaol, oedd y ffaith fod ychydig dros 33 y cant o'r staff yn fodlon iawn â lefel yr arweiniad a'r cymorth a gawsant gan eu rheolwyr llinell. Fodd bynnag, roedd 53 y cant yn ychwanegol o'r staff yn fodlon â'r agwedd hon. Serch hynny, mae'r Awdurdod yn bwriadu gwella'r sefyllfa hon drwy sicrhau bod rheolwyr llinell yn egluro fframwaith rheoli perfformiad yr Awdurdod wrth arfarnu staff bob blwyddyn. O ystyried yr oedi a gafwyd wrth arfarnu aelodau staff yn ystod 2011-12, bydd angen sicrhau bod pob o aelod o staff yn cael ei arfarnu yn brydlon er mwyn sicrhau gwelliant yn y maes hwn.

- 14 Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd technoleg fodern wrth ddarparu ei wasanaethau, ac yn 2011-12, aeth ati i wella'r profiad ar gyfer staff a rhanddeiliaid wrth ddefnyddio dulliau electronig i ryngweithio â'r Awdurdod. Penderfynodd yr Awdurdod adolygu sut mae'n cynnal trafodion busnes, gan gyflwyno rhaglen i hwyluso a chynyddu taliadau electronig. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod yr anawsterau o ran sicrhau dewis cardiau credyd ar gyfer ei beiriannau tocyn mewn ardaloedd anghysbell, a chydweithiodd yn llwyddiannus ag eraill i ymestyn band eang i un ardal o'r Parc.
- 15 Unwaith eto, ceisiodd yr Awdurdod bwysu a mesur effaith y gwaith hwn a mentrau eraill yn y maes hwn, gan bennu rhai dulliau mesur sylfaenol. O'r 126 o bobl a ymatebodd i arolwg gan yr Awdurdod, roedd 36 y cant yn credu bod ansawdd ac ystod y gwasanaethau electronig a ddarparwyd yn rhagorol, a 49 y cant o'r farn bod y gwasanaethau yn dda. Nododd un deg saith o bobl eu bod wedi wynebu problemau technegol. Bydd y ffigurau sylfaenol defnyddiol hyn yn galluogi'r Awdurdod i asesu gwelliannau yn y meysydd hyn yn y dyfodol.
- 16 Er i nifer yr ymwelwyr unigryw â gwefan yr Awdurdod gynyddu bron 59,000 i gyfanswm o 392,000 yn ystod 2011-12, lleihaodd cyfanswm y tudalennau a gafodd eu gweld dros 344,000 i tua 1,616,000. Mae'n debyg bod y gostyngiad hwn yn deillio o waith yr Awdurdod i symleiddio'r broses o lywio ei wefan.
- 17 Mae cynllunio yn parhau i fod yn rhan bwysig o gyfrifoldebau unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac un o amcanion cyson yr Awdurdod yw datrys achosion datblygu diawdurdod yn gyflymach. Er bod gwelliant sylweddol wedi bod yn y maes hwn yn ystod 2010-11, cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o 59 y cant i 53 y cant yn 2011-12<sup>1</sup>. Mae'r Awdurdod yn priodoli'r gostyngiad hwn i absenoldeb staff yn ei dîm cydymffurfio yn bennaf. Mae swydd swyddog cydymffurfio ychwanegol wedi'i chymeradwyo a'i llenwi ac mae'r cyflenwad staff yn awr yn gyflawn. Yn dilyn adolygiad o weithdrefnau yn 2011-12, datblygwyd meddalwedd sy'n gallu symleiddio'r broses o gofnodi a monitro achosion cydymffurfio.
- 18 Mae penderfyniadau cynllunio pob awdurdod cynllunio yn gallu bod yn ddadleuol i ryw raddau. Mae llawer o'r dadlau yn gallu deillio o ddiffyg dealltwriaeth o sut a pham mae penderfyniadau cynllunio a gorfodi yn cael eu gwneud. Ceisiodd yr Awdurdod yn ei Gynllun Datblygu Lleol i wella dealltwriaeth pobl o pam a phryd mae camau gorfodi yn cael eu rhoi ar waith, ac o'i bolisïau cynllunio. Yn 2011-12, sefydlodd yr Awdurdod linell sylfaen ar gyfer y lefelau dealltwriaeth hyn, weithiau ar ôl cynnal gweithdai neu sesiynau hyfforddi penodol, ac mae'r canlyniadau wedi'u nodi isod mewn perthynas â nifer y rhai a ymatebodd:

<sup>1</sup> Roedd hyn yn rhoi'r Awdurdod yn safle 16 o blith y 23 awdurdod cynllunio yng Nghymru ar gyfer 2011-12.



- nododd 42.9 y cant o bobl a fu'n ymwneud â'r maes gorfodi cynllunio eu bod yn deall yn well pam a phryd mae camau gorfodi yn cael eu rhoi ar waith;
  - nododd 80 y cant o ddefnyddwyr y gwasanaeth cynllunio eu bod yn deall polisiau cynllunio yn well;
  - nododd 93 y cant o asiantau cynllunio ac aelodau cynghorau cymuned eu bod yn deall polisiau cynllunio yn well;
  - nododd 100 y cant o'r aelodau eu bod yn deall gwaith y gwasanaeth cynllunio yn well.
- 19 Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i'n hymholiadau anffurfiol gan rai asiantau cynllunio a chynghorau cymuned lleol ynglŷn â gwaith yr Awdurdod a gwerth y cyfarfodydd a drefnir ganddo.
- 20 Dylai rhagor o geisiadau cynllunio lwyddo'r tro cyntaf o ganlyniad i well dealltwriaeth o faterion cynllunio. Yn ôl ffigur sylfaenol yr Awdurdod, ar sail dadansoddiad o geisiadau tro cyntaf yn ystod 2011-12, roedd y gyfran ychydig dros 58 y cant yn y cyfnod hwnnw. Amcan y canllawiau atodol ychwanegol a luniodd yr Awdurdod yn ystod 2011-12 oedd cynyddu'r gyfran hon yn y dyfodol, felly hefyd y dudalen we sy'n dangos perfformiad gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod.
- 21 Gan barhau i ganolbwyntio ar asesu effaith rhywfaint o'i waith ar randdeiliaid, yn 2011-12 ceisiodd yr Awdurdod sefydlu ffigurau sylfaenol ar gyfer lefelau deall beth yw gwaith yr Awdurdod a nodweddion arbennig y Parc ymysg pobl anabl, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd cymunedau yn gyntaf sy'n ffinio â'r Parc. Er ein bod wedi mynegi pryderon wrth yr Awdurdod ynglŷn â chadernid a pherthnasedd y data crai a gasglwyd, dywedodd 70 y cant o bobl o'r grwpiau hyn a fynychodd ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr Awdurdod eu bod yn deall gwaith yr Awdurdod yn dda. Er gwaethaf ein hamheuron ynglŷn â'r data hwn, mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau bod mynediad i'r Parc, a'r cyfle i'w fwynhau, mor gynhwysol â phosibl:
- sefydlu teithiau cerdded misol ar gyfer pobl â nam ar eu golwg;
  - trefnu teithiau cerdded a digwyddiadau rheolaidd ar gyfer y Ganolfan Byw'n Annibynnol ym Mhorthmadog a chanolfan galw heibio Hafal ar gyfer pobl â salwch iechyd meddwl difrifol;
  - trefnu cyfarfodydd Fforwm Cydraddoldeb Anabledd ddwywaith y flwyddyn;
  - penodi swyddog MOSAIC<sup>2</sup> rhan-amser.

<sup>2</sup> Prosiect sy'n gweithio gyda chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyflwyno pobl newydd i dirweddau parciau cenedlaethol.

- 22 Er na chawsom lawer o gysylltiad â grwpiau a fyddai'n elwa ar y math o weithgareddau a restrir uchod, roedd yr adborth a gawsom yn gadarnhaol iawn.
- 23 Mae canolfannau gwybodaeth yr Awdurdod yn helpu pobl i fwynhau a deall y Parc. Yn ôl arolwg a gynhaliodd yr Awdurdod yn 2011-12, roedd dros 72 y cant o ymwelwyr y canolfannau yn fodlon iawn â dewis ac ansawdd y nwyddau sy'n cael eu cynnig, y wybodaeth sydd ar gael a safon y gwasanaeth i gwsmeriaid. Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gŵyn am unrhyw agwedd ar ei ganolfannau gwybodaeth. Cynyddodd cyfanswm yr ymwelwyr â'r canolfannau gwybodaeth dros 5,500 i fwy na 303,300, ond cafwyd gostyngiad yn nifer y rhai a fu'n ymweld â'r canolfannau yn Aberdyfi a Beddgelert. Yn ogystal â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, cynyddodd gwariant cyfartalog pob ymwelydd hefyd - o 40.8 ceiniog yn 2010-11 i 44.4 ceiniog yn 2011-12, cynnydd uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail chwyddiant yn unig.

## Mae gallu'r Awdurdod i asesu ei gynnydd yn amlygu mwy o gryfderau na gwendidau, ond gall yr Awdurdod wneud mwy i werthuso ei drefniadau llywodraethu

- 24 Ym mis Tachwedd 2012, aethom ati i ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod i'w hysbysu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
- cyhoeddodd yr Awdurdod ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2011-12* (Adroddiad Blynyddol) cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2012, mewn fformat a oedd yn llawer cliriach na'r blynyddoedd blaenorol wrth nodi i ba raddau roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei amcanion gwella;
  - roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer nifer o feysydd, gan gymharu perfformiad yr Awdurdod â'i berfformiad y flwyddyn flaenorol a pherfformiad awdurdodau parciau cenedlaethol eraill lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl.
- 25 Yn yr un llythyr, nodwyd bod ffocws cynyddol yr Awdurdod ar ddarparu hunanasesiad cytbwys o'r graddau y llwyddodd i gyflawni ei flaenoriaethau mewn perygl o gael ei danseilio gan ddiffygion y data ar gyfer rhai o'r dangosyddion perfformiad lleol a ddatblygwyd ganddo.
- 26 Roedd hunanwerthusiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2011-12 yn fwy hunan-feirniadol o'i gynnydd ac yn canolbwyntio mwy ar effaith ei weithgareddau. Ymatebodd yr Awdurdod yn gadarnhaol i'n cynigion cynharach ar sut i wella'r ffordd y mae'n hunanasesu cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion. Er enghraifft, mae adroddiadau chwarterol ar gyfer Pwyllgor Perfformiad ac
- Adnoddau'r Awdurdod bellach yn seiliedig ar ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn honno, yn hytrach nag ar adrodd ar feysydd gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith craffu a monitro cynnydd yn fwy effeithiol gydol y flwyddyn. Roedd Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod yn cynnwys hunanasesiad cyffredinol cryno o'i lwyddiant i gyflawni pob amcan gwella. Mae'r asesiadau cyffredinol hyn yn helpu dinasyddion i ddeall yn glir safbwynt yr Awdurdod ar arwyddocâd y wybodaeth fanylach yng ngweddill yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r asesiadau hyn yn nodi'r meysydd lle cafwyd llwyddiant rhannol yn unig a lle mae angen gwneud rhagor o waith.
- 27 Fodd bynnag, er bod yr Awdurdod wedi adrodd yn rheolaidd ar berfformiad i aelodau, roedd rhai o'r dangosyddion perfformiad lleol a ddefnyddiwyd i lywio hunanasesiad yr Awdurdod yn seiliedig ar ddata annibynadwy. Datblygodd yr Awdurdod ei ddangosyddion perfformiad lleol ei hun er mwyn casglu gwybodaeth a fyddai'n helpu i lywio hunanasesiad o gynnydd tuag at gyflawni ei flaenoriaethau gwella. Casglwyd rhywfaint o'r wybodaeth honno am y tro cyntaf yn ystod 2011-12 er mwyn gweithredu fel dulliau mesur sylfaenol i asesu cynnydd pellach.
- 28 Roedd gennym bryderon ynglŷn â dau o'r wyth dangosydd perfformiad enghreifftiol y buom yn eu hystyried yn fanwl. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â dilysrwydd y dull a ddefnyddiwyd o gasglu'r data a gwall wrth ddehongli ac adrodd ar y data. Nod y ddau ddangosydd perfformiad diffygiol oedd darparu tystiolaeth o gynnydd tuag

at gyflawni amcan yr Awdurdod o wella dealltwriaeth o'i waith a nodweddion arbennig y Parc.

29 Dim ond sampl o'r dangosyddion perfformiad a archwiliwyd fel rhan o'n gwaith. Er nad oes gennym unrhyw bryderon arwyddocaol ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r dangosyddion a samplwyd, mae'r hyn a ganfuwyd gennym o safbwynt y gweddill yn awgrymu ei bod yn beryglus i'r Awdurdod ddod i benderfyniadau ar sail dangosyddion perfformiad heb fynd ati i wirio eu dilysrwydd.

30 Er bod amcanion gwella'r Awdurdod yn cael eu cytuno bob blwyddyn yn unol â gofynion y Mesur, cafodd amcanion 2011-12 eu cario drosodd i 2012-13, gyda'r dangosyddion perfformiad ar gyfer 2011-12 yn dod yn ddulliau mesur sylfaenol i fesur cynnydd yn 2012-13. Fel y cyfryw, ac ar sail ein canfyddiadau, mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddull o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen cydnabod unrhyw wendidau sylfaenol yn unrhyw un o ddulliau mesur sylfaenol 2011-12 wrth ddod i gasgliadau ar gynnydd yn 2012-13. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod angen gwella'r dull o ddatblygu dangosyddion perfformiad lleol yn y dyfodol.

31 Mae'r angen i awdurdodau lleol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad cymharol newydd. Dylai Datganiad effeithiol werthuso trefniadau awdurdod yn ogystal â'u disgrifio. Wrth werthuso ei drefniadau, mae Awdurdod mewn sefyllfa well i nodi gwendidau a rhoi camau ar waith i wneud gwelliannau priodol. Fel sy'n wir am lawer o Ddatganiadau eraill a luniwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru, ychydig iawn o werthuso a gafwyd gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, roedd y swyddogion a'r aelodau y buom yn siarad â nhw yn cydnabod y diffyg hwnnw, ac mewn ymateb i'w cais, aethom ati i roi rhagor o wybodaeth i'r Awdurdod am sut i ymgorffori elfennau gwerthuso yn y dyfodol. Mae llawer o'r awgrymiadau hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i wella Datganiad 2012-13 yr Awdurdod ac rydym yn bwriadu cynnal gweithdy ar gyfer tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol yn y dyfodol agos er mwyn eu helpu i lunio Datganiadau mwy defnyddiol yn y dyfodol.

32 Mynegodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod ar 27 Medi 2012, ac ar sail hyn, mae'r Archwilydd a Benodwyd o'r farn fod y datganiadau ariannol yn foddhaol yn gyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Atodiad 3](#).

## Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwelliant yn 2012-13 yn parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion gwella a'r dulliau mesur llwyddiant a gytunwyd am y tro cyntaf yn 2011-12, ac er bod gwelliannau i ddulliau mesur llwyddiant yr Awdurdod yn gyfyngedig o ganlyniad, dylai'r trefniadau cefnogi barhau i ddatblygu

- 33 Aethom ati i ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod ym mis Hydref 2012 hefyd er mwyn ei hysbysu am ein safbwyntiau ynglŷn â'r trefniadau a roes yr Awdurdod ar waith i sicrhau gwelliannau yn ystod 2012-13. Yn ein barn ni, roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o safbwynt cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i, waith a gwblhawyd hyd at Awst 2012, rydym yn credu bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13.
- 34 Daethom i'r casgliad hwn am nifer o resymau, gan gynnwys:
- datblygwyd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yng nghyd-destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar lefel briodol ar gyfer sefydliad cymharol fach. Roeddent yn cynnwys ymgynghorwyr annibynnol, aelodau a staff, ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn hytrach na chamau gweithredu;
  - mae cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn defnyddio fformat sy'n nodi sut mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion a sut bydd yn gwybod a yw wedi llwyddo. Mae hefyd yn cynnwys dulliau mesur a thargedau, lle bo hynny'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
  - mae'r Awdurdod wedi diweddarau ei raglen waith gorfforaethol, sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd staff yn eu cynnal o ddydd i ddydd gydol y flwyddyn er mwyn ceisio cyflawni ei amcanion gwella yn 2012-13.
- 35 Mae amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn barhad o'r amcanion a gymeradwyodd yn 2011-12. Adolygodd yr Awdurdod ei amcanion ar gyfer 2011-12 yng nghyd-destun yr adborth a gafodd i'w ymgynghoriad, gan ddod i'r casgliad y dylai fabwysiadu'r un amcanion gwella yn 2012-13. Mae'r dulliau mesur llwyddiant a fabwysiadwyd ar gyfer 2011-12 yn parhau mewn grym ar gyfer 2012-13 a thu hwnt o bosibl, gan olygu bod modd defnyddio llawer o'r wybodaeth fel sylfaen i asesu cynnydd. Fodd bynnag, er mwyn gwneud cymariaethau o'r fath, mae'n rhaid i'r un data gael ei gasglu yn yr un ffordd bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod i wella'r dulliau mesur llwyddiant a ddefnyddia i ddangos cynnydd.
- 36 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i rai o'r cynigion eraill a wnaethom i hyrwyddo gwelliant. Er enghraifft:
- mae hunanasesiad yr Awdurdod yn llawer mwy eglur o safbwynt i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion gwella, yn hytrach na dim ond asesu llwyddiant y prosiectau unigol a helpodd i'w cyflawni;
  - mae trefniadau rheoli risg yr Awdurdod bellach yn cynnwys risgiau i wasanaethau, ac mae un person yn gyfrifol am fonitro pob risg a nodwyd;
  - mae panel gwasanaethau electronig wedi'i sefydlu i ddatblygu'r gwaith o weithredu strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Awdurdod;

- ymrwymiad i gynnwys perfformiad yn y 'dulliau mesur llwyddiant' a nodir yn Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod yn ei adroddiad blynyddol nesaf i aelodau<sup>3</sup>.
- 37 Nid yw'r Awdurdod wedi ystyried eto a yw am ddatblygu strategaeth Rheoli Gwybodaeth, ac nid oes strategaeth Canolfannau Gwybodaeth wedi'i pharatoi fel y bwriadwyd. Oherwydd blaenoriaethau eraill ac absenoldebau staff, ni fydd y strategaeth yn cael ei drafftio tan flwyddyn ariannol 2013-14. Fodd bynnag, mae Strategaeth Hamdden Ddrafft Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod rhwng 2012 a 2017 wedi'i chymeradwyo, a bydd angen cynnal ymgynghoriad arni cyn ei chymeradwyo'n derfynol.
- 38 Er bod adroddiadau chwarterol ar gynllun gwaith corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y pwyllgor perfformiad ac adnoddau erbyn hyn yn dilyn strwythur yr amcanion gwella, nid oes unrhyw asesiad cyffredinol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni pob amcan gwella. Fodd bynnag, mae gan y prif weithredwr drefniadau ffurfiol gyda chyfarwyddwyr i gyfarfod a thrafod cynnydd ar amcanion, ac fe gyflwynodd adroddiad i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod, yn rhoi amlinelliad o amcanion gwella 2012-13 a'r canlyniadau hyd yma, â hynny mor ddiweddar â mis Mawrth 2013.
- 39 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2012, etholwyd saith aelod newydd i blith yr 18 aelod sy'n perthyn i'r Awdurdod. Achosodd hyn newid mawr i aelodaeth yr Awdurdod, ac yn ogystal â golygu bod angen darparu hyfforddiant, gallai'r newidiadau ddylanwadu'n sylweddol ar gyfeiriad polisi'r weinyddiaeth flaenorol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r aelodau newydd wedi bod yn aelodau o'r Awdurdod yn y gorffennol, ac roedd modd sicrhau rhywfaint o gysondeb drwy, er enghraifft, ailbenodi Cadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.
- 40 Hyd yma, nid oes unrhyw newidiadau mawr wedi bod i ddulliau'r Awdurdod o sicrhau gwelliant. Darparwyd hyfforddiant a rhaglen sefydlu helaeth er mwyn briffio aelodau'n llawn ar drefniadau'r Awdurdod, ac roedd yr aelodau newydd yn fodlon yn gyffredinol â dull gweithredu'r Awdurdod. Er bod nifer y bobl a fynychodd y sesiynau cynharach yn siomedig (dim ond tua hanner yr aelodau newydd a ddaeth i'r sesiynau sefydlu), mae'r Awdurdod bellach yn adrodd bob chwe mis ar bresenoldeb aelodau. Mae cyfweiliadau datblygiad personol ar gyfer aelodau hefyd wedi'u trefnu yn ystod y misoedd nesaf.
- 41 Ceisiodd yr Awdurdod fesur ansawdd ei wasanaeth cyfrwng Cymraeg trwy gynnal arolwg o farn y cyhoedd o weithrediad y cynllun iaith Gymraeg, ond cafwyd ymateb isel iawn. Oherwydd hyn, argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid cynnal yr arolwg eto gan gymryd camau i dynnu sylw defnyddwyr ato. Cynhaliodd yr Awdurdod asesiad effaith ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys y Gymraeg, ar bob polisi newydd neu ddiwygiedig a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i benodi siaradwyr Cymraeg i bob swydd rheng flaen, ac roedd y contractau a osodwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith.

<sup>3</sup> Bydd yn cael ei adrodd i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod ym mis Gorffennaf 2013.

# Atodiadau

## Atodiad 1

### Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

## Atodiad 2

# Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Eryri a'r Awdurdod

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £7.3 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn gyfystyr â thua £284 y preswlydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £1.5 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae gan yr Awdurdod 18 o aelodau. Mae deuddeg ohonynt yn aelodau etholedig a benodir gan gynghorau lleol sy'n perthyn yn rhannol neu'n gyfan gwbl i ardal yr Awdurdod. Mae chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru. Yr aelodau hyn sy'n penderfynu ar flaenoriaethau ac ar ddefnyddio adnoddau.

Mae aelodaeth yr Awdurdod fel a ganlyn:

- Naw aelod wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
- Tri aelod wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Chwe aelod wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Aneurin Phillips yw Prif Weithredwr yr Awdurdod. Iwan Jones yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Aled Sturkey yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol ac Emyr Williams yw'r Cyfarwyddwr Rheoli Tir.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn [www.eryri-npa.gov.uk](http://www.eryri-npa.gov.uk) neu cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.



## Atodiad 3

### Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mr A Phillips  
Prif Weithredwr  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LF

Annwyl Mr Phillips

#### Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

#### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae Awdurdod yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 27 Medi 2012 cyhoeddais farn archwilio ddiamed ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r cyfrifon eu cyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol [ISA260] ar 26 Medi 2012. Mae'r prif faterion a oedd yn codi fel a ganlyn:

- Nid oedd yr un 'camddatganiad heb ei gywiro' a dim ond nifer fach o 'gamddatganiadau wedi'u cywiro' yn amrywio o ran gwerth o £7,730 i £185,340.
- Nodais rai pryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol. Er bod papurau gwaith yn gynhwysfawr ac o safon uchel, gwnaed nifer sylweddol o ddiwygiadau i'r cyfrifon yn ystod yr archwiliad gan arwain at nifer o ddiwygiadau i werthoedd a nodiadau ategol. O ganlyniad bu'n rhaid i ni dreulio amser ychwanegol yn cyfateb a chysoni'r diwygiadau hyn. Yn ein barn ni, mae lle i wella hyn yn y blynyddoedd i ddod.
- Derbyniwyd gwybodaeth yn brydlon a chawsom bob cymorth i gwblhau ein gwaith, yn ddirwystr. Mae'r trefniadau gweithio effeithiol a fabwysiadwyd yn y gorffennol gan staff yr adran gyllid wedi parhau eleni.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 26 Medi 2012. Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd yr un her na gwrthwynebiad ffurfiol i'r materion y bŵm yn eu trafod. Bydd y ffi derfynol yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â gallu dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl staff yr Awdurdod fu o gymorth i mi wrth gwblhau'r archwiliad

Yn gywir

**Anthony Barrett**  
**Archwilydd Penodedig**

**26 Tachwedd 2012**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill hawl i weld cyfrifon yr Awdurdod. Ar ôl i'r Awdurdod gwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n digwydd ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r cyhoedd bod modd gweld y cyfrifon. Gallwch ofyn i'r Awdurdod ddarparu copi o'r cyfrifon ar eich cyfer; gallwch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebaw sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r cyfrifon. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yr Awdurdod wrth ddarparu gwasanaethau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk) neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Atodiad 4

# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

### Amcanion gwella'r awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Busnes a Gwelliant 2012/13* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn [www.eryri-npa.gov.uk](http://www.eryri-npa.gov.uk). Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13
Bydd gan bobl ddealltwriaeth well ynghylch pam a phryd y cymerir camau gorfodi.
Bydd yn cymryd llai o amser i ddatrys achosion datblygu diawdurdod honedig.
Bydd gan y cynghorau cymuned a'n rhanddeiliaid allweddol ddealltwriaeth well o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud a nodweddion arbennig y Parc.
Bydd y trefniadau rheoli perfformiad yn fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn cynnal safon ein gwasanaeth yn ystod cyfnod lle bo adnoddau'n lleihau.
Bydd gan staff ac aelodau ddealltwriaeth well o sut y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod.
Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr â'r Canolfannau Croeso'n fodlon iawn â'r hyn sydd gan y canolfannau i'w gynnig o ran dewis ac ansawdd y nwyddau, y wybodaeth a'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
Mae'r ystod a'r math o wasanaethau sydd ar gael yn electronig yn unol ag anghenion y cyhoedd.
Bydd mwy o ddefnyddwyr y gwasanaeth electronig yn fodlon iawn â'u profiad.
Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o'r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### Hunanasesiad o berfformiad yr Awdurdod

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn [www.eryri-npa.gov.uk/cym/park-authority/publications/corporate](http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/park-authority/publications/corporate) a'i deitl yw *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant 2011/12*.



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)